# Rhedeg arian - Cynllun gweithgaredd gemau

## Paratoi

Argraffwch a thorrwch y darnau arian bach allan.

Argraffwch y lluniau o ddarnau arian ac arian papur mawr a'u rhoi o amgylch y neuadd chwaraeon neu'r maes chwarae.

## Adnoddau

Lluniau o ddarnau arian mawr
Lluniau o ddarnau arian bach

## Geirfa

Ceiniog, punt, ad-daliad

## Cyflwyniad/cyd-destun

Cyflwynwch bob gweithgaredd yn unigol.

**Amser** 10-20 munud

### Ras arian

Gwaeddwch y gwahanol werthoedd darnau arian ac arian papur yr ydych chi wedi'u gosod o amgylch y lle. Gofynnwch i'r dysgwyr rasio i'r darn neu'r papur cywir. Dylai'r gêm gyflymu, pan fydd y dysgwyr yn fwy cyfarwydd â'r gwahanol werthoedd a'u lleoliadau.

**Amser** 10-20 munud

### Troelli darn arian

Gofynnwch i'r dysgwyr eistedd mewn cylch a rhowch ddarn arian 1c, 2c, 5c neu 10c i bob un, gan sicrhau bod y mathau o ddarnau arian yn cael eu gwasgaru'n gyson o amgylch y cylch. Pan gaiff gwerth arian ei alw, mae'r dysgwyr sydd â'r gwerth hwnnw yn rasio o amgylch y cylch i gyfeiriad y cloc yn ôl i'w lle. Ar ôl ychydig o droeon, cyflwynwch y rheol ad-daliad. Os ydych yn gweiddi 'ad-daliad', mae'n rhaid iddyn nhw redeg yn ôl i'w lle yn wrthglocwedd.

**Amser** 10-20 munud

### Timau darnau arian

Rhowch ddarn arian 1c neu 2c i'r dysgwyr. Gofynnwch i'r dysgwyr fynd i grwpiau i wneud gwerthoedd penodol fel 5c neu 10c. Gallwch chi ofyn i'r dysgwyr 1c neidio o amgylch a'r dysgwyr 2c i gropian. Gallwch chi ofyn iddyn nhw neidio gyda'i gilydd pan fyddan nhw wedi cyrraedd eu targed. Amrywiwch y gêm trwy ofyn iddyn nhw fynd i grwpiau yn dawel, neu drwy gyflwyno darnau arian 5c neu gyfansymiau mwy cymhleth.

**Amser** 10-20 munud

### Sgots darnau arian

Gan ddefnyddio sialc neu dâp, marciwch sgwariau ar hyd y llawr mewn patrwm sgots llinol. Labelwch bob sgwâr ag 1c neu 2c. Gofynnwch i'r dysgwyr hercian o sgwâr i sgwâr i wneud cyfansymiau. Gwnewch yn siŵr bod llwybr 1c ar gael, ac anogwch y dosbarth i'w helpu i gyfri. Gall dysgwyr mwy hyderus ddefnyddio'r sgwariau 2c. Cynyddwch y cymhlethdod fel y bo'n briodol trwy ddefnyddio sgwariau 5c.

## Amrywiadau/ehangu ar y gweithgaredd

Gellir addasu'r gemau i gynyddu cymhlethdod, ar gyfer grwpiau oedran hŷn.